# Atebion i Gwestiynau Ysgrifenedig y Cynulliad i'w hateb ar 11 Chwefror 2010

[R] yn nodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.
[W] yn nodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.

## Cynnwys

2 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Blant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau

3 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

## *Gofyn i'r Gweinidog dros Blant, Addysg a Dysgu Gydol Oes*

**Paul Davies (Preseli Sir Benfro):** Faint o blant yng Nghymru sydd wedi mynd ar wyliau gyda'u rhieni yn ystod y tymor ym mhob un o'r pum mlynedd diwethaf. (WAQ55591)

***Rhoddwyd ateb ar 2 Mawrth 2010***

Nid yw'r wybodaeth yn cael ei chasglu'n ganolog ond fe'i cedwir gan awdurdodau lleol ac ysgolion.

**Paul Davies (Preseli Sir Benfro):** Pa gynlluniau sydd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru i gyflwyno system o hysbysiadau cosb yn seiliedig ar fodel Llywodraeth y DU ar gyfer disgyblion sy'n absennol yn ystod y tymor oherwydd eu bod ar eu gwyliau. (WAQ55592)

***Rhoddwyd ateb ar 2 Mawrth 2010***

Nid oes gennym fwriad ar hyn o bryd i gyflwyno hysbysiadau o gosb benodedig yng Nghymru. We have no current plans to introduce fixed penalty notices in Wales.

**Andrew RT Davies (Canol De Cymru):** Pa gamau y mae'r Gweinidog yn eu cymryd i hybu addysg wleidyddol i blant mewn ysgolion cynradd ac uwchradd. (WAQ55598)

***Rhoddwyd ateb ar 2 Mawrth 2010***

Mae'r cwricwlwm ysgolion yng Nghymru yn cynnig cyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu dealltwriaeth ymarferol o'u hawliau a'r cysylltiadau sydd rhwng penderfyniadau gwleidyddol a'u bywydau. Anogir disgyblion i fod yn ddinasyddion gweithredol yn eu cymunedau yn lleol ac yn fyd-eang.

Mae dinasyddiaeth weithredol yn un o'r pum thema allweddol yn y Fframwaith Addysg Bersonol a Chymdeithasol (ABCh) ar gyfer pobl ifanc rhwng 7 ac 19 oed yng Nghymru. Gwneir y penderfyniadau penodol ar union gynnwys a ffurf cyflwyno ABCh mewn ysgolion cynradd ac uwchradd gan y penaethiaid a'r llywodraethwyr ar y cyd ag awdurdodau lleol a phartneriaid. Mae hyn yn rhoi hyblygrwydd i ysgolion ganolbwyntio ar yr agweddau ar ddinasyddiaeth weithredol sy'n berthnasol i'w sefyllfa tra'n cwrdd â'r gofynion i ddarparu rhaglen eang ag ymdriniaeth gytbwys o faterion gwleidyddol.

**Andrew RT Davies (Canol De Cymru):** Pa gamau y mae'r Gweinidog yn eu cymryd i fynd i'r afael â thwyllo mewn arholiadau TGAU a Safon Uwch. (WAQ55599)

***Rhoddwyd ateb ar 2 Mawrth 2010***

Mae'r rheoleiddwyr cymwysterau, APADGOS yng Nghymru, Ofqual yn Lloegr a CCEA yng Ngogledd Iwerddon, yn cyhoeddi'r Cod Ymarfer TGAU, TAG a DUE bob blwyddyn, sy'n cynnwys y trefniadau sy'n nodi ac yn delio ag achosion o gamymddwyn i sicrhau y cynhelir safonau. Dylai pob corff dyfarnu TGAU a TAG gydymffurfio â'r cod ymarfer yn ogystal â dilyn rheolau cyffredin ar ddelio â chamymddwyn a gyhoeddir gan y Cydgyngor Cymwysterau (JCQ). Mae'r cyrff dyfarnu yn gyfrifol am fonitro ac ymchwilio i achosion o gamymddwyn a amheuir a phennu cosbau i ymgeiswyr a chanolfannau y canfyddir eu bod yn torri'r rheolau cyffredin. Mae APADGOS, ar y cyd â'r rheoleiddwyr cymwysterau eraill, yn monitro cydymffurfiaeth y cyrff dyfarnu wrth ddelio ag achosion o gamymddwyn ac yn cyhoeddi data ar gamymddwyn ar draws y pum corff dyfarnu TGAU a TAG yn y tair gwlad bob blwyddyn.

Yn ogystal â'r rheoliadau i ddelio â chamymddwyn, mae APAGOS hefyd yn cymryd camau rhagweithiol i ddelio â'r mater. Mae APADGOS yn ariannu tîm Cymorth Canolfan Cymru sy'n darparu hyfforddiant a chyngor i bob swyddog arholiadau ysgol yng Nghymru. Mae'r cyngor hwn yn cynnwys canllawiau ar atal camymddwyn a'r gweithdrefnau cywir i'w dilyn pan amheuir bod achos o gamymddwyn.

## *Gofyn i'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol*

**Andrew RT Davies (Canol De Cymru):** Pa gamau y mae'r Gweinidog yn eu cymryd i roi cymorth i grwpiau megis grŵp Cymorth Alzheimer, sy'n gweithio'n benodol gyda phobl ifanc sy'n dioddef salwch sy'n gysylltiedig â demensia. (WAQ55594)

***Rhoddwyd ateb ar 2 Mawrth 2010***

Bydd arian ar gyfer grwpiau cymorth Alzheimer a chyflyrau iechyd meddwl eraill yn cael eu hystyried yn ofalus wrth i'm swyddogion gysylltu â BILlau i sicrhau bod mwy o arian cyfiawn i drydydd sector iechyd meddwl ledled Cymru yn y dyfodol. Gofynnaf i'r BILlau ymgynghori'n llawn â'r holl randdeiliaid ar unrhyw newidiadau tebygol mewn ariannu ac i ddatblygu fframwaith i ddatblygu'r mater hwn ar ôl 2010/11.

Caiff grwpiau cymorth hefyd eu hannog i ystyried ffynonellau ariannu eraill. Gellir gweld Canllaw Grantiau'r Trydydd Sector Llywodraeth Cynulliad Cymru yn: http://new.Wales.gov.uk/topics/housingandcommunity/grants/?skip=1&lang=cy. Mae Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru yn cadw manylion y cyfleoedd ariannu sydd ar gael. Mae'r Cynghorau Gwirfoddol Sirol yn cynnig arweiniad a gwybodaeth am ffrydiau ariannu tra bod Y Gronfa Loteri Fawr a'r Prince's Trust hefyd yn cynnig cyngor a chymorth.

**Andrew RT Davies (Canol De Cymru):** Sut y mae'r Gweinidog yn bwriadu cyllidebu ar gyfer salwch sy'n gysylltiedig â demensia dros y flwyddyn ariannol nesaf. (WAQ55595)

***Rhoddwyd ateb ar 2 Mawrth 2010***

Gwneir penderfyniadau ar gynllunio cyllideb ar gyfer gwasanaethau cyflwr penodol yn lleol. Rwy'n disgwyl i Fyrddau Iechyd Lleol gynllunio, comisiynu a chyflwyno gwasanaethau iechyd fel y rhai yn ymwneud â demensia yn unol â safonau cenedlaethol.

**Andrew RT Davies (Canol De Cymru):** Beth yw blaenoriaethau'r Gweinidog o ran salwch sy'n gysylltiedig â demensia ar gyfer 2010-11. (WAQ55596)

***Rhoddwyd ateb ar 2 Mawrth 2010***

Cyfeiriaf at fy ateb i WAQ55590

**Andrew RT Davies (Canol De Cymru):** Faint sy'n cael ei wario ar hyn o bryd ar ofal ar gyfer y rheini gyda salwch sy'n gysylltiedig â demensia. (WAQ55597)

***Rhoddwyd ateb ar 2 Mawrth 2010***

Ni chesglir data cyflwr penodol o ran gwariant ar wasanaethau yn ganolog fel mater o drefn gan Lywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer pob cyflwr.